
Cyngor Caerdydd

# Polisi Caffael Sy’n Gyfrifol Yn Gymdeithasol



Rydyn ni’n Gyflogwr Cyflog Byw

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Sbardunau Polisi Cymru | 4 |
| Sbardunau Polisi Caerdydd | 5 |
| Beth yw Buddion Cymunedol? | 6 |
| Beth yw Cyflogaeth Foesegol? | 6 |
| Beth yw'r Siarter Agor Drysau? | 6 |
| Blaenoriaethau A Chyflawni | 7 -9 |
| 1. Hyfforddiant a chyflogaeth leol | |
| 2. Rhoi Caerdydd yn gyntaf | |
| 3. Partneriaid mewn cymunedau | |
| 4. Gwyrdd a chynaliadwy | |
| 5. Cyflogaeth foesegol | |
| 6. Hyrwyddo llesiant pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed | |
| Llywodraethu a Rheoli | 7 |
| Monitro ac Adrodd | 7 |


# Cyflwyniad

Mae'r datganiad Uchelgais Prifddinas yn nodi'n glir ymrwymiad y Weinyddiaeth i hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y ddinas a'r ddinas-ranbarth. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y ffordd yr ydym yn rheoli'r £390 miliwn sy'n cael ei wario bob blwyddyn gyda chyflenwyr a chontractwyr wneud cyfraniad sylweddol at y flaenoriaeth hon.

Mae'r Cyngor eisoes wedi dangos ymrwymiad clir i'r agenda hon. Ni oedd y sefydliad sector cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gofrestru ar gyfer y Cod Ymddygiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a chawsom ein cydnabod yn Bencampwr dros y Cyflog Byw yng Nghymru yn ystod wythnos Cyflog Byw 2017. Rydym wedi ceisio ymgorffori Buddion Cymunedol i'n prif gontractau er ein bod yn cydnabod ei fod yn faes i'w wella drwy fod yn fwy cydlynol o ran rhoi cyfleoedd i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf.

Nod y polisi hwn fydd adeiladu ar a chysoni'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy ddod â nifer o ofynion deddfwriaethol gwahanol ynghyd, yn ogystal â mentrau polisi a dyheadau yn un fframwaith cydlynol sydd wedi'i danategu gan chwe thema flaenoriaeth allweddol:

| | | |
|---|---|---|
| Hyfforddiant a chyflogaeth leol | Rhoi Caerdydd yn gyntaf | Partneriaid mewn Cymunedau |
| Gwyrdd a chynaliadwy | Cyflogaeth foesegol | Hyrwyddo Llesiant Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n agored i niwed |





**Y Cyng. Christopher Weaver,**
**Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio ac Ymgynghori**


# Cyflwyniad

Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am gyflawni ystod eang o wasanaethau cyhoeddus statudol a dewisol. Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau'n uniongyrchol drwy ei weithlu ei hun, a thrwy sefydliadau preifat a thrydydd sector. Mae'r Cyngor yn gwario dros £390 miliwn y flwyddyn yn caffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus yn briodol, i sicrhau gwerth am arian ac i'w reoli mewn ffordd sy'n cefnogi amcanion ehangach y Cyngor. Gwnaeth Strategaeth Gaffael y Cyngor 2017-2020 roi mwy o ffocws ar gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y ffordd y mae'n rheoli ei weithgarwch caffael. Mae'r Polisi hwn yn rhoi ffocws penodol ar dair menter Llywodraeth Cymru allweddol:

- **Buddion Cymunedol** - yn llywio'r gwaith o greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant gan gynnwys prentisiaethau, cymorth i fusnesau bychan a chanolig a chyflawni mentrau cymunedol, addysgol ac amgylcheddol.
- **Cod Ymddygiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** - yn canolbwyntio ar sicrhau safon uchel o arferion cyflogaeth foesegol gan ein cyflenwyr, ein darparwyr gwasanaeth a'n contractwyr.
- **Agor Drysau: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n addas i Fusnesau Bychan a Chanolig** - ceisio creu amgylchedd teg ac agored lle gallwn oll wneud busnes gyda'n gilydd a mynd i'r afael â materion sy'n pryderu Busnesau Bychan a Chanolig yn benodol.

Mae'r Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol hwn yn bwriadu cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni'r mentrau hyn, y gofynion deddfwriaethol a pholisi cysylltiedig ehangach a chyflawni ymrwymiadau'r Cyngor ei hun, fel y nodwyd yn **Uchelgais Prifddinas**. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn gwella'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n eu cyflawni drwy ei waith caffael.



# Sbardunau Polisi Cymru

## Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016, yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym oll eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y rôl bwysig y gall caffael ei chwarae:




*"Bydd rôl gaffael yn rhan bwysig o sut fydd corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau dan y Ddeddf. Disgwylir i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol presennol mewn perthynas â chaffael a'u bod hefyd yn defnyddio Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy o gaffael cynaliadwy. Mae hyn yn sefydlu'r arferion caffael a'r camau penodol a ddisgwylir o bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru".*

## Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i hyrwyddo datblygu (yn eu hardal nhw) sefydliadau nid er elw er mwyn cynnig gofal a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys ystod eang o wasanaethau sy'n cynrychioli'r trydydd sector – mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr.




*Yn unol â'r Ddeddf, mae Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg wedi creu fforwm rhanbarthol i gefnogi darparwyr sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r agenda gyffredinol ac i rannu a datblygu arfer da. Nod y fforwm yw annog sector gwerth cymdeithasol llwyddiannus sy'n gallu ac yn barod i gyflawni cyfleoedd darparu gwasanaeth.*

## Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC)

yn sefydlu nifer o egwyddorion allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gaffael cyhoeddus eu rheoli ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer o egwyddorion sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys:

- **Effaith Gymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol**
- **Buddion Cymunedol**
- **Cystadleuaeth agored a hygyrch**
- **Prosesau safonol syml ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus**
- **Datblygu Polisi a Gweithredu**

## Ffyniant i bawb: Y strategaeth genedlaethol

sydd wedi'i dylunio i lywio integreiddio a chydweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru, ac i roi pobl wrth wraidd gwell darpariaeth gwasanaeth.

**Mae'n nodi pump maes blaenoriaeth -**

- **y blynyddoedd cynnar,**
- **tai,**
- **gofal cymdeithasol,**
- **iechyd meddwl**
- **a sgiliau.**

## Mentrau Llywodraeth Cymru

**Buddion Cymunedol** – Cyflawni'r Gwerth Gorau am ArianCymru

**Cod Ymddygiad** – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

**Agor Drysau:** Siarter Caffael sy'n Addas i Fusnesau Bach a Chanolig

# Sbardunau Polisi Caerdydd

Mae ymrwymiad y Cyngor i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wedi'i adlewyrchu yn amcanion Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd, sydd wedi'u halinio'n amlwg â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ymrwymiad wedi'i gryfhau drwy gyhoeddi Uchelgais Prifddinas. Mae Uchelgais Prifddinas yn ategu ymrwymiad y Cyngor i Gyfrifoldeb Cymdeithasol ac i dalu'r Cyflog Byw.

## Uchelgais Prifddinas

neu Uchelgais Prifddinas, yw cynllun pum mlynedd y Cyngor ar gyfer y ddinas, sy'n amlinellu'r weledigaeth o wneud Caerdydd yn ddinas flaenllaw ar lwyfan ryngwladol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Gweithio dros Gaerdydd - Sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at, ac elwa ar lwyddiant y ddinas.
- Gweithio dros Gymru - Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus.
- Gweithio i'r dyfodol - Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- Gweithio dros wasanaethau cyhoeddus - Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb galw cynyddol a llai o gyllideb.

## Gwnaeth Strategaeth Gaffael 2017-2020 y Cyngor

roi mwy o ffocws ar gyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy ei weithgarwch caffael. I'r perwyl hwn, mae wedi ymrwymo i gyflawni buddion cymunedol, gan gynnwys cyflogaeth a phrentisiaethau, gan hyrwyddo arferion gwaith teg, gan gynnwys talu'r Cyflog Byw.




## Addewid Caerdydd

- yn nodi gweledigaeth y Cyngor sef "Mae pob person ifanc yng Nghaerdydd yn gallu pontio'n llwyddiannus o addysg orfodol i addysg barhaus, hyfforddiant a'r byd gwaith, ac yn gallu cyflawni eu llawn botensial." Nod Addewid Caerdydd yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghaerdydd yn cael swydd yn y pendraw sy'n eu galluogi nhw i gyflawni eu llawn botensial, wrth gyfrannu at dwf economaidd y ddinas. Defnyddir Buddion Cymunedol i gyflawni'r nod hwn.

## Rhaglen Partneriaid Hawliau Plant

Mae Caerdydd yn un o dair dinas sy'n rhan o'r **Rhaglen Partneriaid Hawliau Plant** sydd wedi llwyddo mewn proses ymgeisio ym mis Rhagfyr 2016. Mae Caerdydd yn bwriadu defnyddio'r fframwaith hwn a ddarperir gan Unicef i ymgorffori dull hawliau plant dros ystod o wasanaethau cyhoeddus mewn pedwar maes: Canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal, Gweithio'n Lleol, Comisiynu a Strydoedd sy'n Addas i Blant.

## Fargen Ddinesig

Nod cyffredinol y FARGEN DDINESIG yw gwella cyflwr economaidd yr ardal, fodd bynnag mae modd crynhoi nodau penodol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel a ganlyn: *"Gwella cynhyrchedd; taclo diweithdra; adeiladu ar seiliau arloesedd; buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol; rhoi cymorth i fusnesau a sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa ar unrhyw fuddion economaidd".*

## Fairtrade Cardiff

Daeth Caerdydd yn brifddinas Masnach Deg gyntaf y byd ym mis Mawrth 2004. I ennill statws Masnach Deg, mae'n rhaid cyflawni pum nod. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau ymrwymiad cryf gan y Cyngor, manwerthwyr lleol, arlwywyr, busnesau a gweithleoedd a'r gymuned leol. Mae cael grŵp llywio sy'n cynnwys busnesau a sefydliadau lleol yn ofyniad hanfodol a chaiff hyn ei gyflawni yng Nghaerdydd drwy *Grŵp Masnach Deg Caerdydd.*

## Beth Yw Buddion Cymunedol?

Mae Canllaw Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, 'Rhoi'r Gwerth Gorau am Arian Cymru', yn rhoi trosolwg o'r Buddion Cymunedol y dylai'r sector cyhoeddus geisio eu cyflawni. Mae'r Canllaw yn nodi chwe chategori cyffredinol o ran Buddion Cymunedol, sydd wedi'u nodi yn y diagram.

Yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru, mae'r Cyngor yn defnyddio cymalau Buddion Cymunedol ar gyfer yr holl waith caffael priodol lle mae modd cyflawni buddion o'r fath, ac mae'n cymhwyso'r Dull Mesur at bob contract gwerth dros £1 miliwn er mwyn casglu ac adrodd ar y canlyniadau.


Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio Cymalau Buddion Cymdeithasol ym mhob contract gwerth dros £1miliwn ac yn ceisio eu defnyddio nhw mewn contractau o dan y trothwy hwn. Mae'n gyfrifoldeb ar y cynlluniwr i ystyried y potensial i gyflawni buddion cymunedol fesul contract drwy'r broses gaffael a'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn.




Hyd yma, gan amlaf mae Buddion Cymunedol wedi'u cyflawni yn rhan o gontractau adeiladu a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor. Nod y Polisi hwn yw ceisio cyflawni Buddion Cymunedol yn rhan o bob contract priodol y Cyngor. Yn sgil hyn, bydd angen newid yn y ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio cymalau Buddion Cymunedol yn ei broses dendro.

## Beth Yw Cyflogaeth Foesol?

Cafodd y Cod Ymarfer 'Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' ei lansio yn 2017 gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu mwy o gadwyni cyflenwi moesegol sy'n darparu contractau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Anogir pob sefydliad i gofrestru ar gyfer y Cod ac mae disgwyl i gadwyni cyflenwi busnesau'r sector cyhoeddus ei fabwysiadu. Bwriad y Cod yw sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â llythyr ac ysbryd cyfreithiau'r DU, yr UE a rhai rhyngwladol. Mae gan y cod 12 ymrwymiad sy'n cynnwys y materion a nodir yn y diagram.




Cyngor Caerdydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i dalu'r Cyflog Byw 'go iawn' i staff yn 2012, a'r Cyngor Cyflog Byw sydd wedi'i achredu hiraf yng Nghymru. Mae gan y Cyngor hanes balch o hyrwyddo arferion gwaith teg. Ar 16 Mawrth 2017, Cyngor Caerdydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i gofrestru ar gyfer Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## Beth Yw'r Siarter Agor Drysau?

Mae Agor Drysau: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n addas ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig wedi'i gyhoeddi gan Gwerth Cymru. Mae'r Siarter yn rhan o raglen o gamau gweithredu a fydd yn darparu dull caffael cyson ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder penodol i fusnesau bach a chanolig. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i fynd ati i annog ei brif gyflenwyr i roi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig i gyflawni elfennau o gontractau priodol. Mae hefyd wedi ymrwymo i annog ei brif gyflenwyr a busnesau bach a chanolig i fabwysiadu ethos datblygu cynaliadwy.

Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau positif i wella cymorth i fusnesau ac i gyflenwi nwyddau, Gwasanaethau neu waith. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi'r canllaw Gwerthu i Gyngor Caerdydd, moderneiddio'r dechnoleg yn gyson, datblygu calendr contract a fframwaith, annog cyflenwyr a chontractwyr i gyflwyno consortia neu fidiau cydweithredol am waith y Cyngor, cymryd rhan mewn digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' gyda Busnes Cymru, defnyddio Strategaethau Lotio a defnyddio'r dull SQuID a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Blaenoriaethau a Chyflawni

Nod y Polisi yw cynnig fframwaith cyffredinol i sicrhau dull cydlynol a chyson o ran cyflawni 'Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol' sy'n ymgorffori sbardunau polisi Cymru a Chaerdydd. I ategu hyn, mae'r Cyngor wedi nodi'r chwe blaenoriaeth ganlynol sy'n cynrychioli ei werthoedd a'i gredoau. Mae'r polisi hwn yn nodi uchelgais ac ymrwymiad y Cyngor o ran y prif flaenoriaethau hyn, ac er mwyn ceisio eu cyflawni bydd y Cyngor yn:

- Goruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi drwy ei Fwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol.
- Datblygu a chynnal Pecyn Cymorth Cyfrifoldeb Cymdeithasol i gefnogi cyflenwyr a phrynwyr i wneud y gorau o'r gwaith o gyflawni gwerth cymdeithasol.
- Cyhoeddi a chodi ymwybyddiaeth o amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol y Cyngor i sicrhau bod cyflenwyr a chontractwyr yn gwybod am yr hyn yr ydym am iddyn nhw ei gyflawni.
- Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol o ran cynhwysiant mewn dogfennau tendr fel y gall cyflenwyr, darparwyr a chontractwyr nodi sut y byddant yn cefnogi gweithrediad y polisi.
- Rheoli cyflawniad buddion cymdeithasol drwy drefniadau rheoli contract effeithiol a sicrhau y gall contractwyr ddefnyddio Dull Mesur Llywodraeth Cymru i fesur cyflawniad o ran contractau priodol gwerth dros £1miliwn.

**Hyfforddiant a chyflogaeth leol**

**Rhoi Caerdydd yn gyntaf**

**Partneriaid mewn Cymunedau**

**Gwyrdd a chynaliadwy**

**Cyflogaeth foesegol**

**Hyrwyddo Llesiant Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n agored i niwed**

## Llywodraethu a Rheoli

Bydd y Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol. Yr Aelod Cabinet sy'n Bencampwr Buddion Cymunedol a Chyflogaeth Foesegol yn y Cyngor sy'n cadeirio'r Bwrdd. Mae'n cynnwys uwch reolwyr o bob rhan o'r Cyngor, gyda rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael eu gwahodd i fynychu yn ôl yr angen. Mae'r Bwrdd yn cwrdd ar sail chwarterol.

## Adrodd a Monitro

Bydd angen i gontractwyr a chyflenwyr llwyddiannus gyflwyno gwybodaeth fonitro reolaidd yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni Buddion Cymunedol. Bydd y Rheolwr Contractau'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflenwr / contractwr yn bodloni ei ymrwymiad Buddion Cymunedol ac yn cyflwyno gwybodaeth i'r tîm Comisiynu a Chaffael bob chwarter. Bydd y Tîm Comisiynu a Chaffael yn gyfrifol am adolygu'r wybodaeth Buddion Cymunedol a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol.

Bydd y Bwrdd Buddion Cymunedol yn adolygu'r Gofrestr Buddion Cymunedol yn rheolaidd, gan herio, craffu perfformiad contractwyr lle bo angen a gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli a/neu'r Cabinet yn ôl yr angen. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio datblygiad Adroddiad Buddion Cymunedol blynyddol, gan gynnwys astudiaethau achos, fel bod cynnydd yn cael ei drafod yn eang, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru.

# Blaenoriaethau a Chyflawni

## Hyfforddiant a chyflogaeth leol

Rydym eisiau:
Creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth cynhwysol i bobl leol er mwyn lleihau diweithdra a chodi lefel sgiliau ein gweithlu lleol, yn enwedig mewn grwpiau targed megis pobl sydd wedi bod heb waith am gyfnodau hir.

Byddwn yn:

- Mynnu bod bidwyr contractau sydd werth dros £1m ymrwymo i gynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.
- Annog ein contractwyr i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, lleoliadau gwaith a swyddi.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a gwasanaethau cyflogaeth i hyrwyddo a chydlynu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol.
- Ceisio cyfleoedd i weithio gydag ysgolion Cynradd ac Uwchradd drwy "Addewid Caerdydd" i roi'r sgiliau cywir i bobl ifanc Caerdydd i fodloni gofynion y farchnad lafur.
- Manteisio i'r eithaf ar fuddion y Fargen Ddinesig a phrif gyfleoedd datblygu eraill i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi.
- Yn unol ag Addewid Caerdydd, annog cyflenwyr a chontractwyr i weithio gydag ysgolion a cholegau, cynnig profiad gwaith ac ymwybyddiaeth fusnes i fyfyrwyr, pobl sy'n gadael gofal a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, yn enwedig pobl o ardaloedd neu gymunedau difreintiedig.

## Rhoi Caerdydd yn gyntaf

Rydym eisiau:
Ystyried effaith gymdeithasol ac economaidd prynu'n lleol wrth gomisiynu a chontractio, ac rydym eisiau i'n cyflenwyr a'n contractwyr wneud yr un peth

Byddwn yn:

- Cynyddu nifer y cyfleoedd a hysbysebir gan y Cyngor drwy GwerthwchiGymru, gan hysbysebu cyfleoedd yn lleol lle y bo'n briodol
- Ystyried defnyddio strategaethau lotio a derbyn bidiau consortia i wella mynediad at gontractau gwerth uwch
- Annog ein cyflenwyr a'n partneriaid i brynu'n lleol a, lle y bo'n briodol, ei gwneud hi'n ofyniad i brif gontractwyr hysbysebu cyfleoedd cadwyn cyflenwi drwy GwerthwchiGymru a chynnal digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr.
- Gweithio gyda phartneriaid megis Busnes Cymru, Busnes mewn Ffocws a Siambr Fasnach De Cymru i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol i gael mynediad at gyfleoedd busnes y sector cyhoeddus.
- Hyrwyddo ein canllaw Gwerthu i Gyngor Caerdydd a pharhau i safoni a symleiddio ein gweithdrefnau a'n prosesau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Partneriaid mewn Cymunedau

Rydym eisiau:
Chwarae rhan weithredol yn y gymuned leol a sefydliadau cymorth cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd a chymunedau sydd â'r angen mwyaf.

Byddwn yn:

- Annog ein cyflenwyr i gael effaith yn lleol drwy gefnogi mentrau i wella cyfleusterau lleol a thrwy eu hannog nhw i weithredu cynlluniau gwirfoddoli i staff cyflogedig allu cefnogi grwpiau a mentrau cymunedol lleol.
- Hyrwyddo gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol drwy Ganolfan Gwirfoddoli Caerdydd, gwefan Gwirfoddoli Cymru a Pharth Gwirfoddoli Caerdydd.
- Sicrhau bod cyfleoedd (rhai uniongyrchol gan y Cyngor a thrwy ein contractwyr) ar gael i sylfaen gyflenwi amrywiol gan gynnwys y trydydd sector, mentrau cymdeithasol a chyflenwyr lleol. Hefyd, byddwn yn cynnig sesiynau mentora a chefnogaeth i gynorthwyo'r sefydliadau hyn i dendro am a chyflawni'r cyfleoedd cyflenwi hyn lle bo angen.
- Helpu i gefnogi iechyd a llesiant cymunedau lle mae'r busnes yn gweithredu drwy, er enghraifft, ymgysylltu ag ysgolion a cholegau lleol, busnesau lleol eraill a grwpiau preswylwyr er mwyn helpu i gynnal neu noddi gweithgareddau / digwyddiadau, a fydd o fudd i'r bobl sy'n byw yno.
- Hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant, cydraddoldeb a thegwch - targedu ymdrech tuag at y rheiny sydd dan anfantais a mynd i'r afael ag amddifadedd ledled y ddinas.

# Blaenoriaethau a Chyflawni

## Gwyrdd a Chynaliadwy

Rydym eisiau:
Amddiffyn yr amgylchedd, lleihau gwastraff, lleihau'r defnydd o ynni a defnyddio ffynonellau eraill yn effeithlon.

Byddwn yn:
- Gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr a chontractwyr i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol yn deillio o nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir, drwy gydol eu cylch bywyd o echdynnu deunyddiau amrwd i ddiwedd eu hoes.
- Sicrhau ein bod yn dilyn polisïau a phrosesau caffael cynaliadwy a fydd yn manteisio ar y cyfle i leihau'r defnydd o ynni, ôl-troed carbon, gwastraff, llygredd, cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol andwyol wrth annog pobl eraill i wneud yr un peth.
- Cael gwared ar wastraff diangen drwy fabwysiadu'r dull "lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu" a chefnogi economi cylchol ac economi rhannu drwy 'Meddyliwch cyn prynu - ydych chi wirioneddol ei angen, a oes modd defnyddio rhywbeth arall, allwn ni ei logi neu ei fenthyg?'
- Cynhyrchu cynnyrch masnach deg lle bo'n bosibl (mae masnach deg yn cefnogi ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu drwy gynnig prisiau gwell, amodau gwaith da a bargen deg).

## Cyflogaeth Foesegol

Rydym eisiau:
Defnyddio'r safonau moesegol gorau posib wrth ein gwaith ac yn ein cadwyn cyflenwi

Byddwn yn:
- Gweithredu ac yn ymgorffori'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi drwy fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, creu rhestr ddu, hunan-gyflogaeth ffug, defnyddio cynlluniau ymbarél yn annheg a chontractau dim oriau.
- Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i ddod yn gyflogwyr achrededig y Cyflog Byw drwy hyrwyddo Cynllun Cymorth Achrediad y Cyflog Byw "Go Iawn" Cyngor Caerdydd
- Trefnu gweithdai cyflogwyr i hyrwyddo'r Cyflog Byw, wedi'u targedu at y sector adeiladu i gychwyn.
- Cynnwys cwestiwn Ymarferion Gwaith Teg â sgor i ddogfennau tendr perthnasol a fydd yn cynnwys rhannau ar y Cyflog Byw, defnydd annheg o gynlluniau ymbarel, contractau dim awr ac Arferion Hunan-gyflogaeth Ffug.
- Annog cyflenwyr a chontractwyr i fod ag arferion gwaith hyblyg, polisiau gwaith sy'n addas i LGBT / Ailbennu rhywedd sy'n gynhwysol yn eu hyfforddiant cydraddoldeb.

## Hyrwyddo Llesiant Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed

Rydym eisiau:
Diogelu a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, gyda chymorth y gymuned gyfan gan gynnwys busnesau lleol

Byddwn yn:
- Helpu i wneud cymunedau'n lleoedd lle y gall pob dinesydd, ynghyd â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, deimlo'n ddiogel, lle y gwrandewir ar eu lleisiau ac yr hyrwyddir eu hawliau drwy weithredu dull Dinas sy'n Addas i Blant a dull Dinas sy'n Gyfeillgar i Ddemensia.
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar ddiogelu.
- Sicrhau bod contractwyr yn gallu nodi camdriniaeth neu ecsbloetio a chymryd cyfrifoldeb dros adrodd am bryderon mewn modd amserol a phriodol.
- Sicrhau bod gan bob cyflenwr gwasanaethau gofal a chymorth y mae'r Cyngor yn ei brynu ar gyfer ei ddefnyddwyr gwasanaeth y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol ar waith, a lle bo angen sicrhau eu bod wedi'u cofrestru ar gorff cofrestru.
- Sicrhau bod contractwyr yn hyrwyddo ac yn noddi cyfleoedd i blant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth h.y. digwyddiadau i ofalwyr.

# Cysylltu â ni

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am y strategaeth

E-bost
Caffael@caerdydd.gov.uk

Ffôn
029 2087 3743

Ysgrifennwch at :

Gwasanaethau Comisiynu a Chaffael
Ystafell 246
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Gwefan:
www.caerdydd.gov.uk/caffael
www.atebionsolutions.co.uk

Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD